# Canllawiau Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

## Beth yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy?

Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn yn darparu grant ariannol i brosiectau sy'n cyfrannu at warchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae mwy wybodaeth ar safle we AHNE Llŷn.

Darperir y cyllid ar gyfer y Gronfa gan Lywodraeth Cymru.

---

## Amcanion y Gronfa

- Archwilio ffyrdd arloesol o gyfrannu at y cyfleoedd a'r heriau a nodir yn agenda gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a chynaliadwyedd, gan gynnwys, yn benodol, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Cynorthwyo i fynd i'r afael ag Argyfyngau Colli Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd. Er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r argyfyngau hyn, mae 60% o gyllid y rhaglen wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau y mae eu prif nod yn mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a newid hinsawdd a lliniaru hynny.
- Meithrin capasiti mewn cymunedau lleol, a datblygu a chefnogi prosiectau cymunedol sy'n hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.
- Codi mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynaliadwyedd ymhlith trigolion ac ymwelwyr, a hwyluso newid ymddygiad cadarnhaol trwy gyfathrebu a hyrwyddo'r prosiectau a'r gronfa.
- Cyflawni a hyrwyddo dibenion yr AHNE a'r amcanion fel y'u nodir yng Nghynllun Rheoli AHNE Llŷn.

---

## Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Mae'r Gronfa ar agor i:

- Sefydliadau cymunedol
- Awdurdodau lleol
- Elusennau a sefydliadau gwirfoddol
- Y sector preifat
- Unigolion

Bydd angen i unigolion a'r sector preifat ddangos bod eu prosiectau yn cynnig budd cyhoeddus ehangach.

Rhaid i brosiectau:

- Gyfrannu at amcanion y Gronfa
- Bod wedi'u lleoli o fewn yr AHNE neu ddarparu budd uniongyrchol i'r AHNE
- Gydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys:
    - Caniatâd cynllunio
    - Rheoliadau adeiladu
    - Trwyddedau neu ganiatadau eraill perthnasol

---

## Enghreifftiau o brosiectau cymwys

Gall y Gronfa gefnogi prosiectau megis:

- Prosiectau ysgolion, gan gynnwys:
    - Rheoli tiroedd ysgol ar gyfer bywyd gwyllt
    - Lleihau defnydd ynni, gwastraff a teithio
- Prosiectau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n:
    - Lleihau'r defnydd o geir
    - Gwella iechyd a lles drwy annog gweithgarwch corfforol
- Gwelliannau i dir agored mewn pentrefi ar gyfer defnydd cymunedol a bywyd gwyllt
- Adfer nodweddion hanesyddol pwysig

---

## Grantiau a chyfraddau grant

Gall y cynllun ddarparu:

- Grantiau prosiect
- Grantiau rheoli tuag at gostau staff
- Grantiau datblygu i gefnogi gweithgareddau neu bartneriaethau newydd

## Lefel y grant

- Gellir darparu hyd at 75% o gyfanswm costau prosiect cymwys, neu ganran uwch mewn amgylchiadau eithriadol.

## Cyfraniad yr ymgeisydd

Disgwylir i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 25% o gyfanswm costau'r prosiect drwy un neu fwy o'r canlynol:

- Cyllid y sector preifat
- Cyfraniadau mewn nwyddau neu wasanaethau
- Grantiau eraill
- Cyllid y Loteri Genedlaethol
- Cyllid sefydliadol neu gymunedol arall

Bydd amser gwirfoddolwyr yn cael ei brisio yn unol â chyfraddau cyfredol. Cysylltwch â'r Uned AHNE am y wybodaeth ddiweddaraf.

Fel arfer, telir y grant ar ôl cwblhau'r prosiect, neu mewn ran-daliadau.

---

# Sut a phryd i gyflwyno cais

Awgrymir yn gryf i ymgeiswyr drafod eu syniadau gyda'r cyswllt yn yr Uned AYHNE cyn cyflwyno cais ffurfiol.

Yn dilyn hynny, dylid:

1. Cwblhau'r ffurflen gais cyn belled â phosibl
2. Atodi unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol e.e llythyrau cefnogaeth
3. Cyflwyno'r cais drwy e-bost neu drwy'r post

Gall eich cyswllt lleol roi gwybodaeth am:

- Y broses ymgeisio
- Dyddiadau cau
- Pryd y caiff ceisiadau eu hystyried

Mae'n bwysig iawn peidio â dechrau unrhyw waith cyn i'r cais gael ei asesu a'i gymeradwyo.

---

# Cyswllt

**Uned AHNE Llŷn**
Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur
Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
LL53 5AA

ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru
01758 704194